

Gweinyddwr GŴyl Rhyngwladol Serameg



Cyflog: Tâl £15 yr awr yn ddibynnol ar brofiad

Mae hon yn rôl ran-amser am gyfnod cychwynnol o 9 mis - ar gyfartaledd 28 awr y mis neu 1 diwrnod yr wythnos.

Gweithio hyblyg yn bennaf o gartref ond wedi lleoli yng nghanolbarth neu Orllewin Cymru os yw'n bosib.

Mae'r Wyl Rhyngwladol Serameg, Aberystwyth yn ceisio penodi Gweinyddwr GŴyl a fydd yn gweithio gyda'r Bwrdd Cyfarwyddwyr a Chydlynnydd yr Wyl i gyflawni un o'r digwyddiadau serameg mwyaf blaenllaw yn y DU. Dyma gyfle i berson sydd â sgiliau gweinyddol da sy'n croesawu'r her o weithio mewn amgylchedd celfyddydol deinamig.

Mae'r Wyl, a drefnwyd ar y cyd rhwng Crochenwyr Gogledd Cymru, Crochenwyr De Cymru, Prifysgol Aberystwyth a Chanolfan y Celfyddydau, yn dwyn ynghyd artistiaid serameg i arddangos eu gwaith trwy arddangosiadau, arddangosfeydd, tanio odynau, ffilmiau a darlithoedd. Mae'r Wyl yn cynnig achlysur rhwydweithio cyffrous a chyfle chyfnewid gwybodaeth a sgiliau ar gyfer pawb sy'n ymddiddori mewn serameg gyfoes.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw hanner dydd, **ddydd Iau 24 Tachwedd 2022**. Byddwn yn cadarnhau derbyn eich cais drwy e-bost. Sylwch ein bod ond yn trin ceisiadau yn electronig. Rydym yn gobeithio cynnal cyfweiliadau yn gynnar ym mis Rhagfyr gyda'r dyddiad cychwyn **dydd Llun 10 Ionawr 2023**.

Gweinyddwr GŴyl Rhyngwladol Serameg

Fel Gweinyddwr yr Wyl bydd gennych rôl gyffrous a chanolog yn nhrefniadaeth yr Wyl ym mis Gorffennaf 2023. Ar ôl cyfnod o ad-drefnu ers y Pandemig rydym yn sefydlu dwy swydd arweiniol i weithio gyda'r Bwrdd Cyfarwyddwyr i gynnal y digwyddiad. Bydd Gweinyddwr yr Wyl, sy'n gweithio ar y cyd â Chydlynnydd yr Wyl yn rheoli eu timau eu hunain o gontractwyr tymor byr eraill i gynnwys tasgau penodol, er enghraifft marchnata, cyfryngau cymdeithasol, arwyddion ac ati, yn dibynnu ar sgiliau'r ymgeisydd llwyddiannus.

Gwneud cais

E-bostiwch eich CV i chair@icfwales.co.uk, ac atodwch lythyr eglurhaol hefyd o ddim mwy na 500 o eiriau. Dylech esbonio'n gryno pam mai chi fyddai'r person delfrydol ar gyfer y rôl hon sy'n manylu ar sut mae eich profiad, eich galluoedd a'ch rhinweddau yn cyd-fynd â manyleb y person isod. Bydd eich cais yn cael ei sgorio yn erbyn y fanyleb hon. Cofiwch hefyd gynnwys enwau a manylion cyswllt dau ganolwr, a'ch argaeledd rhwng 5 a 9 Rhagfyr fel y gallwn wneud trefniadau priodol. Os ydych angen mwy o wybodaeth cyn i chi ymgeisio, cysylltwch â ni drwy e-bostio chair@icfwales.co.uk.

Rhagor o fanylion am yr **Ŵyl** a manylion y swydd

Yr **Ŵyl Serameg Ryngwladol**

Pryd?

Wedi'i gychwyn yn 1987, mae'r **Ŵyl** Rhyngwladol Serameg (ICF) yn un o'r digwyddiadau mawr yn y calendr serameg. Mae'r **Ŵyl** nesaf yn 2023.

Lle?

Mae'r **Ŵyl** yn cael ei chynnal bob yn ail flwyddyn dros benwythnos ym mis Gorffennaf gan groesawu dros 1000 o bobl i leoliad hardd sy'n edrych dros y môr yng Nghanolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Gorllewin Cymru.

Pwy sy'n dod?

Artistiaid serameg proffesiynol, myfyrwyr celf a serameg, addysgwyr, curaduron, casglwyr, crochenwyr amatur a hobi, rhai sydd yn hoffi crefft a phobl o'r gymuned leol.

Pwy yw'r arddangoswyr rhyngwladol?

Mewn dros 30 mlynedd mae'r **Ŵyl** wedi cynnwys dros 200 o artistiaid serameg enwog o'r DU ac ar draws y byd gan gynnwys Ewrop, Gogledd America, Japan a Tsieina. Mae crochenwyr o Affrica, India, Indonesia a De America hefyd yn cymryd rhan, mewn rhai achosion gan roi cyfle unigryw i weld dulliau traddodiadol o greu ac addurno cerameg. Er enghraifft, yn 2019 roedd yr **Ŵyl** yn cynnwys crochenwyr o Uzbekistan.

Beth mae'r **Ŵyl yn ei chynnig?**

Gall ymwelwyr weld arddangosiadau, gwyllo tanio odynau ysblennydd, mynychu darlithoedd, cymryd rhan mewn trafodaethau, gweld ffilmiau ac arddangosfeydd ac ymweld â stondinau masnach. Gall mynychwyr yr **Ŵyl** ryngweithio'n rhydd ag arddangoswyr yn eu meysydd gwaith ac mae gweithgareddau ymarferol hefyd yn agored i bawb. Yn 2021, er gwaethaf y pandemig, roedd modd cynnal gŵyl 'gymysgol' gyda chyflwyniadau ar-lein a rhai gweithgareddau cymunedol yng Nghanolfan y Celfyddydau. Rydym yn bwriadu defnyddio rhywfaint o'r profiad hwnnw.

Beth yw'r arddangosfeydd?

Mae'r arddangosfeydd gwerthu yn cynnwys gwaith diweddar gan yr arddangoswyr gwadd; sioe serameg ar wahân gan Grochenwyr Gogledd a De Cymru; Sêl Cwpanau, ac arddangosfa o waith Gwneuthurwyr Newydd. Mae arddangosfeydd arbennig hefyd ym mhrif Oriol y Ganolfan Gelfyddydau ac yn yr Oriol Serameg lle mae casgliad hanesyddol mawr o grochenwaith stiwdio i'w gweld bob amser.

Cefnogaeth

Mae'r Wyl yn cael grant gan Gyngor Celfyddydau Cymru.

Manyleb rôl

Telerau: Contractwr Annibynnol (Hunangyflogedig)

Cyfradd tâl: £15 yr awr yn ddibynnol ar brofiad.

Oriau:

- I ddechrau, 28 awr y mis (4 diwrnod cyfwerth) i gynnwys presenoldeb yng nghyfarfodydd y bwrdd ar-lein fel arfer ar ail ddydd Mercher pob mis rhwng 10.00 a 1.00.
- Oriau ychwanegol fel sy'n cael eu trafod a chytuno gyda'r bwrdd cyfarwyddwyr yn y cyfnod cyn yr ŵyl.
- Bydd yn ofynnol i'r person yn y rôl gyflwyno adroddiad o'r gwaith wedi'i gwblhau ac anfoneb i gyfarfodydd misol y bwrdd i'w awdurdodi.

Lle: Gweithio o adref a wedi lleoli yng nghanolbarth neu orllewin Cymru os yn bosib. Fe fydd y rhan fwyaf o'r cyfarfodydd ar-lein ond mae disgwyl rhywfaint o bresenoldeb yn Aberystwyth yn y cyfnod cyn yr ŵyl

Efallai y bydd gofyn i'r ymgeisydd llwyddiannus ddarparu dogfennaeth o dan Ddeddf Mewnffudo, Lloches a Chenedligrwydd 2006. Mae cynigion cyflogaeth yn amodol ar dderbyn cyfeiriadau boddhaol. Mae'r swydd ar gael o ganol Ionawr 2022 gyda disgwyliad phresenoldeb yng nghyfarfod bwrdd mis Ionawr.

Prif Ddyletswyddau a Chyfrifoldebau:

Gweinyddiaeth

- Trefnu a rheoli, ar y cyd â chadeirydd Bwrdd y Cyfarwyddwyr, y cyfarfodydd misol a chyfarfodydd eraill yn ôl y gofyn.
- Cynnal cofnodion o weithgareddau Bwrdd a'r Wyl gan gynnwys cofnodion cyfarfodydd a rhestrau cyswllt.
- Goruchwylio cwblhau'r holl gontractau Gŵyl a chynnal cofnodion cysylltiedig ar gyfer artistiaid ac is-gontractwyr yr Wyl.
- Goruchwylio'r broses o recriwtio Cynorthwywyr yr Wyl
- Goruchwylio gweithgareddau gwerthuso'r Wyl a pharatoi adroddiadau gwerthuso

Cyhoeddusrwydd a Marchnata

- Cynnal a datblygu gwefan yr Wyl Rhyngwladol Serameg ddwyieithog.
- Gweithredu ymgyrch ddwyieithog cyfryngau cymdeithasol ar gyfer yr Wyl yn 2023.
- Cydlynu gwaith dylunio a phrintio llyfryn yr Wyl
- Cydlynu'r hysbysebu a'r marchnata i Sefydliadau Addysg Uwch, sefydliadau serameg eraill ac mewn cyhoeddiadau lleol.

Artistiaid, Arddangosfeydd, Stondinau Masnach a Rhaglenni

- Goruchwylio'r trefniadau artistiaid GŴyl gan gynnwys teithio a llety.
- Goruchwylio'r trefniadau ar gyfer arddangosfeydd yr Ŵyl, gan weithio gyda Bwrdd y Cyfarwyddwyr, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Crochenwyr Gogledd Cymru, Crochenwyr De Cymru a Chydlynnydd yr Ŵyl.
- Recriwtio a rheoli stondinau masnach yr Ŵyl e.e. Sefydliadau AU, deunyddiau serameg a chyflenwyr offer, grwpiau rhyngwladol, sefydliadau crochenwyr.
- Gweithio gyda Bwrdd cyfarwyddwyr ar gyfer trefnu Rhaglen Gwneuthurwyr Newydd a Phreswyladau.

Gweithio mewn tîm, rhwydweithio a chysylltu

- Gweithio'n agos gyda Bwrdd Cyfarwyddwyr ICF a Chydlynnydd yr Ŵyl ar gyfer trefnu gweinyddu, cyhoeddusrwydd a thasgau marchnata ac wrth gyflwyno'r Ŵyl.
- Rheoli Swyddfa'r Ŵyl drwy gydol yr Ŵyl gan gynnwys paratoi a chymryd i lawr.
- Rheoli'r tîm o staff is-gontractedig mewn perthynas â gweinyddu, marchnata a chyhoeddusrwydd.
- Cysylltu a datblygu cysylltiadau gweithio da gyda'n partneriaid a'n cyfranddalwyr; Prifysgol Aberystwyth, Canolfan y Celfyddydau Aberystwyth, Crochenwyr De Cymru, Crochenwyr Gogledd Cymru, sefydliadau celfyddydol, noddwyr a chysylltiadau marchnata a chyhoeddusrwydd.

Unrhyw ddyletswyddau eraill

- Dyletswyddau eraill y cytunwyd arnynt fel y trafodwyd rhwng y person yn y rôl a Bwrdd Cyfarwyddwyr ICF.

Manyleb person

	Hanfodol	Dymunol
Addysg, hyfforddiant a chymwysterau	<ul style="list-style-type: none"> • Lefel dda o addysg 	
Profiad	<ul style="list-style-type: none"> • Gweithio mewn tîm • Gweinyddiaeth o fewn sefydliad neu dîm • Datblygu a chynnal gwefan • Cofnodi cyfarfodydd ac ysgrifennu adroddiadau • Monitro a gwerthuso 	<ul style="list-style-type: none"> • Cynhyrchu deunydd marchnata a/neu gyhoeddusrwydd • Codi arian a gweithio ar geisiadau am grantiau • Gweithio o fewn amgylchedd gŵyl • Gweithio gyda serameg a/neu seramegwyr • Rheoli cynhyrchu a digwyddiadau.
Galluoedd a rhinweddau	<ul style="list-style-type: none"> • Rheoli amser a therfynau amser yn effeithiol • Rheoli disgwyliadau yn broffesiynol • Cyfathrebu'n effeithiol, yn gywir ac yn broffesiynol ar ffurf lafar ac ysgrifenedig • Cofnodi, rheoli ac adrodd gwybodaeth yn gywir a chyda sylw i fanylion • Dealltwriaeth dda o'r cyfryngau cymdeithasol 	
Sgiliau a gwybodaeth	<ul style="list-style-type: none"> • Sgiliau trefnu ardderchog • Hyfedredd digidol • Dealltwriaeth o ddatblygiad gwefannau • Gwybodaeth o'r Gymraeg 	<ul style="list-style-type: none"> • Gwybodaeth a dealltwriaeth o serameg a'r celfyddydau • Rhuglder yn y Gymraeg ar ffurf ysgrifenedig a llafar
Priodoleddau Personol	<ul style="list-style-type: none"> • Ymddygiad cadarnhaol a brwdfrydig. • Agwedd hyblyg at bob agwedd o'r swydd ac at weithio fel rhan o dîm • Gallu defnyddio menter • Gallu gweithio'n annibynnol ac o adref yn ôl y galw • Parhau'n dawel ac yn wrthrychol dan bwysau ac yn gwrtais mewn perthnasoedd gwaith 	